" RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD "

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

GOLYGYDD—
Y PARCH. J. D. JONES, B.A., B.D., TREBANOS

" PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA "

Cyfrol XL
1940

LLANDYSUL :
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER.

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1940-01_40_1

CYNNWYS

A glywais, 25.
Adolygiad, 58.
Amser i dewi, 169.
Arholiad yr Ysgol Sul, 102.

Barddoniaeth—
A hi'n dyddhau, 80.
Ar achlysur cinio, 39.
Cywydd cyfarch, 39.
Deigryn, 109.
Dryw bach, Y, 76.
Dderwen, Y, 108.
Emynau, 2, 57.
Eurof a thelynegwr, 144.
Hen brydydd, Yr, 16.
Myfyrdod, 95.
Sudd long, Y, 26.
Torpedo, 112.
Barn Einstein, 13.
Barn yr hen bobl, 10, 17, 55.
Bluen eira, Y, 35.
Bugail, Y, 180.

Cof-deyrnged, 58.
Cofnodion y pwyllgor, 75, 106, 171.
Cyfle'r eglwys yn y dyddiau presennol, 71.
Cynghrair y Gwragedd, 7, 74, 171, 187.
Cymanfa Ganu Morgannwg, 77.
Cymanfaoedd Canu, Ein, 93.
Cyrddau blynyddol, Y, 105.
Cyrddau chwarter, Y, 170.
Cyrddau'r Pasc, 75.

Chwarter canrif, 167.
Chwarter cant o ysgolfeistri, 40.

Daniel Lleufer Thomas, 163.
Dathlu pedwar ugeinfed penblwydd y Parch. D. Evans, 37.
Doethineb Plato, 21.
Dr. Griffiths—atgofion a gwerthfawrogiad, 130.
Dr. W. Griffiths, 134.
Duw a rhyfel, 12.

Evans, Dr. T. Hopkin, 49.

Ffydd sy'n ofni ffeithiau, 164.
Ffyddlondeb Duw a dyn, 3.

Gwr Bonheddig, 178.
Gwyrth crefydd, 104.
Gymanfa Ganu, Y, 124.

Hanes capel Galltyplaca, 145.
Helpu'r Ymofynnydd, 186.
Hen Dy Cwrdd Cefncoed, 117.
Hwnt ac yma, 73.

Iddew a Christion mewn dadl, 99.

Lloffion o hen ddyddiadur, 27, 77, 108.

Maes llafur yr ysgol Sul, 8, 123, 140, 159, 172, 188.
Marwgofion, 14, 29, 45, 61, 79, 94, 110, 125, 142, 173, 191.

Nodion y golygydd, 65, 81, 97, 177.
Nodion yr eglwysi, 15, 31, 48, 64, 80, 95, 112, 128, 144, 171, 176, 191.

Pererindod feddyliol y tadau, 151.
Pethau ychwanegol, Y, 50, 68.
Pregeth, 113.
Priodasau, 13, 45, 61, 70, 109, 125, 142, 173.

Rhyddid, 88.

Sul y blodau, 33.

Teyrnged estron, 161.
Teyrnged ffrind, 139.
Tom Rock, 25.
Tom Rhosfach, 52.
Trem yn ôl, 183.
Troeon fy ngyrfa, 129.
Trothwy'r flwyddyn, 1.

Ymwrolwn a byddwn barod, 83.

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XL. IONOR, 1940 RHIF 1.

Trothwy'r Flwyddyn.

"A dywedais wrth y dyn a oedd wrth borth y flwyddyn, 'Rho i mi oleuni fel y gallwyf gerdded yn ddiogel i'r anhysbys.' Ac atebodd, 'Cerdd allan i'r tywyllwch, a rho dy law yn Llaw Duw. Bydd hynny'n well i ti na golèuni, ac yn fwy diogel na ffordd gyfarwydd.'"

Dyfynwyd yn araith y Brenin ar y dydd Nadolig.

* * *

I Ddarllenwyr YR YMOFYNNYDD ymhob man cyflwynir ein dymuniadau gorau am y flwyddyn newydd hon.

Hyderir y bydd yn flwyddyn well i'r ddynoliaeth yn gyfan, ac y gwelir cyn ei diwedd y cenhedloedd sydd yn awr yn ymladd a'i gilydd yn cyd-gerdded eto mewn ysbryd tangnefeddus.

Ar ddechrau'r flwyddyn meddyliwn am yr achosion y mae'n ddyledswydd arnom eu gwasanaethu—uniondeb mewn cenhedlaeth sy mor llawn o gamwri, anhunanoldeb mewn amser pan mae cymaint o ddioddef, tangnefedd yn nydd rhyfel. Bedyddier ein llygaid â'r weledigaeth, ac mewn ymddiriedaeth edrychwn ar y dyfodol fel cyfle i sylweddoli'r weledigaeth.

O feddwl am basiant y blynyddoedd a'r cyfnewidiadau a wneir yn lliw ein bywyd, yn fwy amlwg o hyd y daw'r DIGYFNEWID, y gwerthoedd hynny na all treigl amser mo'u dinistrio. Yn pontio ceunentydd y blynyddoedd y mae unoliaeth barhaol amcanion Duw, a'r rhain sy'n gosod ystyr a gwerth ar ein bywyd ninnau ym myd amser.

Dywaid Emerson na ddylai dyn farnu symudiadau bywyd o safbwynt y blynyddoedd, yn hytrach dylai farnu o safbwynt y canrifoedd. Yr unig ffordd y gallwn ni weld pethau yn y goleuni iawn ac yn eu maint gwirioneddol ydyw cymryd *yr olwg hir* arnynt. Rhyw syniad unochrog am y byd sy gan y dyn na chyfyd ei olygon

tua'r gorwelion draw. Ac os gwir hyn am y byd materol, pa faint mwy am y byd ysbrydol? Dyn yn treulio ei holl amser i wasanaethu'r pethau a dderfydd, heb un ymdeimlad ganddo o'r annherfynol, y tragwyddol, a'r anweledig—dywaid rhywbeth yn nwfn yr enaid wrthym mai dyma'r tywyllwch eithaf. Onid trasiedi bennaf yr amseroedd diwethaf hyn yw nifer cynyddol o ddynion yn *byw* yn unig i ddibenion darfodedig, a'r tragwyddol yn rhywbeth pell a diystyr iddynt?

Ac eto sieryd Llais o'r Testament Newydd wrthym am beidio â bod yn orbryderus am y dydd yfory. Byw un diwrnod ar y pryd a rhoddi ein sylw i ofynion yr awr sy'n ein gafael ni—dywedir mai dyma'r ddoethineb a'n diogela rhag yr ofnau a'r pryderon sy'n poeni cymaint ar feddyliau dynion. Y presennol yn unig sydd gyda ni, am hynny gallwn adael i'r dyfodol ofalu amdano'i hun. Y gwir yw, gallwn wneud hynny trwy gysegru'r awr bresennol i Dduw, ac felly ein sicrhau ein hunain fod y dyfodol yn nwylo Duw. Canolbwyntia'r Cristion ei feddwl ar y presennol am ei fod yn edrych y tu hwnt iddo. Gall fyw bywyd llawn yn yr awr sy'n diflannu am ei fod ar yr un pryd yn cadw ei olwg ar ei gysylltiadau tragwyddol. Nid oes yma iddo ddinas barhaus, ond ceisio y mae yn ddyfal am ddinas ag iddi sylfeini, pensaer ac adeiladydd yr hon yw Duw.

Y mae'r angen mor bendant heddiw ag y bu erioed i ni, Gristnogion mawr eu braint, bregethu a byw ein ffydd. Oherwydd yr ofn sydd yng nghalonnau dynion, aethant i gredu fod eu diogelwch yn gorffwys ar rym eu harfau dinistriol. Dyma'r athrawiaeth sy'n gyfrifol am y galanastra ar gyfandir Ewrop heddiw. Daliwn i gredu fod achub enaid cenedl yn gymaint angen ag achub enaid yr unigolyn, fod darpariaethau ysbrydol cenedl yn fwy pwysig yn y pen draw na'i phentwr arfau.

Cofiwn eto fod Duw wedi rhoi allwedd y *dyddiau gwell* yn llaw dyn. Mewn ymddiriedaeth wynebwn y dyfodol. Fel y dywaid Pat McCormick, "There's lots of mud at our feet, but the stars are still shining and the signs of the times are big with hope for those who have eyes to see."

EMYN.

"Dwy adain colomen pe cawn"
Ehedwn dros gyrrau y byd,
A thaenu'r efengyl a wnawn
Dros ddynion y ddaear i gyd.
Ar dawel awelon y dydd
Fe ganwn a molwn fy Nhad,
A soniwn am angor fy ffydd
A gydiodd mewn cariad mor rhad.

Fe ganwn am Iesu a'i groes,
A molwn ei enw a'i waith,
Mae'n fwy nag anghenion pob oes,
Yn gyfaill a golau i'r daith.
Fy nghalon sy'n llosgi yn dân
Wrth wrando ymddiddan ei air,
Mae diolch yn dyblu fy nghân
O glôd a gogoniant i'r Saer.

Coleg Caerfyrddin.

D. Jacob Davies.

Ffyddlondeb Duw a Dyn.

(*Gan* Y Parch. JOHN EVANS, B.A., Aberystwyth).

YN ddiweddar deuthum i adnabod dinesydd parchus a chyfrifol, ac un diwrnod wrth fynd heibio i'w dŷ galwodd arnaf i gael gair o ymddiddan ag ef ac â chydymaith iddo. Yn fuan dechreuwyd siarad am gyflwr torcalonnus holl wledydd y byd ymron, a gofynnais fel hyn, " Beth ddaw a ni yn ôl o'n llwybrau ffol a chyfeiliornus ? "

" Yn gyntaf oll," meddai un o'm croesawyr, " cydnabod y Creawdwr." " Gwir iawn," meddai'r llall, " ond nid yw hynny'n ddigon ychwaith. Rhaid gwneud mwy na chydnabod Duw a gweddio arno ; rhaid gweithredu hefyd." " Yn hollol felly," meddai'r cyntaf, " ffydd heb weithredoedd marw yw. Crefydd Epistol Iago yw 'nghrefydd i."

Nid dau weinidog mo'r ddau hyn. Nid Undodiaid oeddent ychwaith, eithr dau a rhesymau ganddynt, yn ddiamau, am y ffydd a oedd ynddynt. Yn ôl cyffes y ddau hyn, nid credu'n yr Arglwydd yn unig yw ein dyledswydd ond gweithredu hefyd bob amser ac ym mhob lle yn unol a'i ddeddfau. " Wrth eu ffrwyth yr adnabyddwch hwynt."

Hawdd i mi gydsynio, canys fel yna yr arferais feddwl oddiar y'm dysgwyd felly ym moreddydd oes, diolch i'r Nefoedd. Beiddiais ddweud mai angen mawr y dyddiau cythryblus hyn, i'm tyb i, yw cael pawb ymhob gwlad yn ufudd i ofynion Duw, cael pawb ymhob man yn awyddus i gydnabod eu cyfrifoldeb i Dduw a dyn.

* * *

Dyna fy nhestun yn yr anerchiad hwn ar derfyn y flwyddyn y buoch mor garedig a chaniatâu i mi fod yn Llywydd y Gymdeithas*. " Ffyddlondeb Duw a dyn " neu, os goddefwch, " Cyfrifoldeb Duw a dyn."

Y Mae Duw yn Ffyddlon.

Nid oes hanes yn yr Efengylau i Iesu unrhyw amser osod profion fod Duw ger bron ei wrandawyr. Hawdd meddwl iddo wneud hynny o dro i dro, ond nid oes gofnod o hynny ar glawr. I Iesu yr oedd bôd Duw a'i ffyddlondeb tu hwnt i bob amheuaeth. Dyna safbwynt y Testament, Hen a Newydd. " Gwybydd gan hynny mai yr Arglwydd dy Dduw sydd Dduw, sef y Duw ffyddlon, yn cadw cyfamod a thrugaredd a'r rhai a'i carant ef, ac a gadwant ei orchymyn." (Deut. vii. 9). " Yn dragywydd, O Arglwydd, y mae

*Talfyriad o Araith y Llywydd ym Mhantydefaid, Awst 9, 1939.

dy air wedi ei sicrhau yn y nefoedd ; dy wirionedd sydd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth ; seiliaist y ddaear, a hi a saif ; wrth dy farnedigaethau y safant heddiw, canys dy weision yw pob peth." (Salm cxix. 89—91). Ar lawer tudalen arall darllennir tystiolaethau o'r fath, tystiolaethau sy'n codi oddiar sicrwydd profiad neu wybodaeth, a chynhwysant gnewllyn y gwirionedd am berthynas y Gallu anfeidrol sydd yn a thrwy'r cyfanfyd a'r byd rhyfeddol yng nghongl fechan o'r hwn yr ym ninnau'n byw.

Tystiolaeth Gwyddor.

Tebyg hollol mewn iaith arall yw tystiolaeth gwyddor yn ei holl agweddau. Ymhob peth gwel y gwyddonydd allu anfeidrol yn gweithredu'n ddigymar gyson trwy gyfreithiau na wyddant wyro. Ond araf, araf y cyrhaeddwyd y wybodaeth hon am Dduw, ar ôl hir ymbalfalu a chrwydro ar lwybrau dryslyd ofergoeliaeth ac eilun-addoliaeth. Rhaid er hynny ymchwilio ac ymchwilio, canys plannwyd yn enaid dyn ddyhead am wybodaeth uwch a gwell am Dduw o hyd ac o hyd. Dyna hanes dyn o'r dechreuad. Yn ei gyflwr cyntefig gwelir ef ar ei liniau'n ceisio addoli'n ei ffordd blentynnaidd ac anysgedig, addoli rhyw *allu* y tu allan iddo, a chredai fod y *gallu* hwn yn dal perthynas ag ef. Trwy ei ymbalfalu symudodd dyn at olygiadau uwch a phurach am Dduw. " I fyny " oedd ei nôd ; " ymlaen at bob gwirionedd " fel y gallai ganfod Duw'n ei holl ogoniant.

Penodau diddorol dros ben yn hanes y ddynoliaeth yw'r rheini sy'n traethu am yr ymchwiliadau am y Bod Goruchaf. Dyma anturiaethau pwysicaf dyn—teithiau'r enaid yn ei ddyhead am Dduw. Y mae'r Beibl yn llawn o'r hanes pwysig hwn. Gwelir yma fel y newidiodd dyn o bryd i bryd ei feddwl am Dduw, gan adael heibio ei olygiadau plentynnaidd, ac esgyn o ris i ris i ddealltwriaeth uwch a phurach hyd nes iddo ei ganfod fel yr Un Duw a Thad cariadlawn pawb oll a ddatguddir i ni yn nysgeidiaeth Iesu Grist.

Ffyddlondeb Duw a alluogodd dyn i symud ymlaen ar y llinell hon—y ffaith iddo greu dyn ar ei lun a'i ddelw ei hun. Ysbryd yw Duw, ac nid corff a meddwl ydyw dyn, eithr ysbryd ydyw yntau hefyd. Y mae Ysbryd Duw yn galw ar ysbryd dyn yn barhaus, gan ei ddenu i'w adnabod yn well o hyd. Y mae'n llawn mor wir hefyd fod ysbryd dyn yn dyheu'n gyson am gymundeb agosach ag Awdur ei fod. Fel hyn y dihangodd dyn o grafangau meddyliau ffol am Dduw, gan ei ddarganfod yn Allu anfeidrol, anghyfnewidiol, yr un ddoe, heddiw, ac yn dragywydd. Fel hyn y daeth dyn i olrhain meddyliau Duw fel y maent yn ysgrifenedig ar dir a môr, ar sêr y nefoedd a blodau'r maes, yn ogystal ag ar gorff a meddwl ac ysbryd dyn ei hunan. Nid anwadalwch ac ansicrwydd a wel

bellach ond trefn a bwriad, achos ac effaith, cyfreithiau cedyrn diwyro, buddiol er diogelu, cyfrannu, a bendithio o hyd ac o hyd. Nid yn unig Crewr doeth a Gallu anfeidrol a wel dyn bellach ond Tad cariadlawn a sylfaenodd bopeth mewn doethineb ac er mwyn dibenion daionus, er mwyn diwallu dyn, ac er mwyn ei ddiwylliant yn wastadol. Teimla bellach fod " Duw yn llond pob lle, presennol ymhob man," ac " er anwadalwch dyn " pery ef yr un.

Na chamddealler fi ; ni cheisiaf gyfleu yn y modd lleiaf fod pawb o blant dynion yn meddu ar yr amgyffred uchaf am Dduw, pell o hynny. Yn ein byd hyd heddiw y mae pobl afrifed mewn ystad gyntefig yn feddyliol ac ysbrydol, ac fe'u ceir yn ein plith ymhob man. Sylwais ar y modd y gwawriodd syniadau uwch am Dduw ar feddyliau dynion ; sylwais hefyd mai ffyddlondeb Duw a'i gariad a sicrhaodd hyn o oes i oes.

Gweler fel y mae ffyddlondeb Duw yn gweithredu'n y cyfanfyd trwy gyfreithiau sefydlog, digymar ddoeth. Darllenir y rhain ar wynebau'r creigiau serth, ar sêr y nen, ar y blodeuyn distadlaf, yn y gronyn lleiaf, yn ogystal ag ar gorff a meddwl ac ysbryd pob dyn beth bynnag fo ystad ei ddatblygiad. Gweithredant yn barhaus, ac ni ellir eu hosgoi. Pe pallent hwy pallai nef a daear hefyd. Gweithredant yn yr un modd ymhob man—achos ac effaith ar waith yn gyson, yn arbed neb na dim. Os byddaf fi'n byw'n wael yn foesol ac ysbrydol rhaid fy mod yn fy niweidio fy hun a'r gymdeithas yr wyf yn troi ynddi. Nid oes fodd cuddio na ffoi. O ie, i lywodraethu'r byd a'i gadw yn gyfan rhaid gosod mewn grym gyfreithiau cedyrn diysgog. Ni allai Duw wneud dim arall. Duw y deddfau doeth yw ef—Duw na pherthyn iddo gyfnewidiad na chysgod troedigaeth.

Rhagorfraint Dyn *yw ei allu i olrhain y cyfreithiau hyn a chydweithredu â hwynt.* Heb y gallu hwn nid dyn mohono ond *creadur* yn unig, heb ei synnu gan yr un prydferthwch, na'i ddenu gan yr un gwirionedd, na'r un ddelfryd, na'r un daioni, na'r un awydd am flaenfynediad. Ond yn rhinwedd yr enedigaeth-fraint hon gall dyn sylweddoli ei berthynas â'r cyfanfyd, â Duw, ac â'i gyd-ddyn. Doniwyd dyn yn helaeth, helaeth gan Dduw. Crewyd ef " ychydig yn is na'r angylion." Creadur hunan-ymwybodol, hunan-lywodraethol yw dyn. Medr resymu, medr gynllunio a gwahaniaethu rhwng y da a'r drwg. Medr ddyheu am ryddhad oddiwrth y pethau sy'n ei rwystro rhag symud ymlaen at y bywyd helaethach a gwell. Medr dyn gymryd diddordeb yn ei sefyllfa feddyliol a moesol. Medr edrych i mewn arno'i hun, a'i bwyso a'i fesur ei hun, eistedd mewn barn arno'i hun a'i symbylu ei hun i ymdrechu am welliant a chynnydd yn feddyliol ac ysbrydol.

Creadur cymdeithasol yw dyn. Ni all fyw ei fywyd llawnaf iddo ei hun yn unig. Y mae ei fywyd ynghlwm a bywydau ereill pell ac agos, a dylanwada hyn arno'n annhraethol drwy gydol ei oes.

Wrth gwrs, ar waith y mae dylanwadau da a drwg, ac yn ôl ei ddewis y mae dyn yn eu mabwysiadu neu'n eu gwrthod. Yn ei holl ymdrafodaeth gymdeithasol y mae dyn yn ymberffeithio ynte'n dirywio. Nid yw'n aros yn yr un cyflwr yn foesol ac ysbrydol. Y mae dyn yn ystyried angenrheidiau a iawnderau ei gyd-ddyn. Medr amddiffyn ei gyd-ddyn, aberthu drosto, a marw, os angen, er ei fwyn. Câr yn fynych y gwir, neu egwyddor, neu ddyletswydd, yn fwy na'i les ei hun, yn fwy ar brydiau na'i einioes. Yn y pethau hyn gwelwn ddyn ar ei orau, dyn yn amlygu ei ddwyfoldeb, dyn yn ei berthynas agos â Duw, a Duw ynddo yntau, dyn yn dangos ei werthfawrogiad o'r pethau hynny sy'n gwneuthur y gymdeithas ddynol yn gymeradwy gan Dduw.

Gwnaeth Duw ddyn yn fôd cyfrifol—cyfrifol, wrth gwrs, i Dduw yn y pen draw, ond yn gyfrifol hefyd i ereill, yn ei gartref, yn ei gylchfyd, yn ei ddyletswyddau, yng ngwneuthur y defnydd llawnaf o'i alluoedd, yn y gwaith o hyrwyddo pob daioni, yn yr ymdrech barhaus i weithio allan ei iechydwriaeth. Trosglwyddodd Duw, fel petai, ran o'i awdurdod ei hun i ddyn.

Dywedais i Dduw ddonio dyn yn helaeth â galluoedd corfforol, meddyliol, ac ysbrydol, ac wrth eu defnyddio yn iawn, ac ar ei orau, y mae dyn yn ei ddiwyllio ei hun, ac yn ei wneud ei hun yn gyd-weithiwr â Duw yn y pethau a berthyn i ddatblygiad y ddynoliaeth. Wrth gydfyw â'n gilydd a defnyddio ein cynheddfau ymhob modd er hyrwyddo lles uchaf dynolryw y ceir cymdeithas hapus, felys, undebol, heddychlawn, awyddus i symud ymlaen tuag at fwy o burdeb a sancteiddrwydd. Dyn sy'n gyfrifol am sefydlu'r gymdeithas hon, a gwna hynny trwy gysegru ei ddymuniadau a'i alluoedd i amcanion da ac uchel yn unol â bwriadau disigl Duw.

Gofynnwyd unwaith i Daniel Webster beth oedd y meddwl mwyaf difrifol a ddaeth iddo erioed, ac atebodd, " Fy nghyfrifoldeb i Dduw." Diolchwn i'r Nefoedd am y teimlad hwn. Fe'n ceidw ar y " gul ffordd well sy'n arwain i fywyd." Ar lwybr ufudd-dod i ddyletswydd yn unig y gallwn ochelyd peryglon a themtasiynau fyrdd. Wrth sylweddoli ein cyfrifoldeb yn gyson y sicrhawn i ni ein hunain iechydwriaeth wirioneddol.

Sylwch fel y mae llysiau'r maes, y blodau, y coed, a phob dôl a gardd yn ateb y tymhorau, ac ar eu gorau bob amser, yn ôl yr adnoddau wrth law, a hynny heb fethiant. Dylasai hynny fod yr un mor wir amdanom ninnau, a buasai hynny'n wir amdanom pe sylweddolem ein cyfrifoldeb o ddydd i ddydd. Dilynir pob sylweddoliad o gyfrifoldeb gan wir lwyddiant a dylanwad ym mywyd pob unigolyn, pob cartref, pob eglwys, a phob cymdeithas.

Nid Duw sy'n gyfrifol am gyflwr torcalonnus y byd yn y dyddiau hyn eithr dynion—penaethiaid, llywodraethwyr, a dinasyddion yn gyffredinol sy'n gwrthod cydnabod eu cyfrifoldeb i Dduw a'u cyd-ddynion, dynion sy'n gadael i ddifaterwch, neu drachwant, neu

ysbryd cas, gormesol, neu rhyw felltith arall anheilwng o ddyn gymryd meddiant ohonynt. Gofynnir yn fynych yn y trybini presennol, " Paham na fuasai Duw yn ymyrryd ac yn dangos ei fraich gadarn, gref? " Gweddïir arno wneud hynny. O, mor gamsyniol yr ymresymwn yn fynych ! Ein cyfrifoldeb ni yw symud y pethau hyn. Oni ddylem yn hytrach deimlo'n wylaidd ac yn ddwys fod Duw a'i angylion a phawb oll sydd yn ei bresenoldeb agosach yn deisyf arnom yn wastadol sylweddoli ein cyfrifoldeb i symud o'n byd bob rhyfel, a gormes, ac erlid, a llid. Credwn mai cariad yw Duw. Yn sicr ni ewyllysia efe i'w blant ryfela a'i gilydd. Y mae rhyfel yn groes i'w anian ef. Y mae ffordd uwch a gwell i gymodi'r gwahaniaethau a dileu'r anghyfiawnderau—ffordd cyd-ymgynghori, ffordd cyd-ddealltwriaeth, ffordd y rhecl euraid, ffordd cariad, ffordd Crist, ffordd Duw. Nid digon cydnabod y Creawdwr—rhaid sylweddoli ein cyfrifoldeb iddo ymhob ymdrafodaeth.

Cynghrair y Gwragedd.

Rhanbarth Ceredigion.

Cynrychiolid y gwahanol adrannau'n dda yn y cyfarfod blynyddol ym Mrondeifi ar Hydref 28. Llywyddwyd gan Miss Jones, Gellifaharen, a chyfeiriodd at gynnydd mawr y mudiad oddiar ei ddechrau naw mlynedd yn ôl. Dywedodd ein bod yn byw mewn amseroedd sy'n profi cymeriad a bywyd yr aelodau, a gobeithiai weld y mudiad yn dod trwy'r argyfwng yn gryfach yn ysbrydol nag erioed. Dymunodd i'w dilynydd, Mrs. T. O. Williams, flwyddyn ffrwythlon mewn gwasanaeth ac hapusrwydd.

Cymrwyd y gwasanaeth defosiynol gan Miss Jones, Llwynonn, a gweinyddwyd y Cymun gan y Parch. T. O. Williams, M.A.

Cyfrifwyd adroddiadau'r adrannau, yr ysgrifennydd, y trysorydd, ac ereill yn foddhaol. Ail-etholwyd y swyddogion.

Wedi trafodaeth ddiddorol penderfynwyd fod yr adrannau unigol yn trefnu eu gwaith eu hunain dros y tymor, ac fod pob adran yn cadw mewn golwg anghenion y milwyr.

Ar wahoddiad adran Alltyplaca cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor yno ym mis Mawrth. Bydd y cyfarfod blynyddol nesaf yn Llwynrhydowen.

Darllenodd Miss Evans, Ffynnon Fair bapur rhagorol ar ei hymweliad â'r gynhadledd yn Llundain, lle yr oedd chwe chant yn bresennol o bob parth o'r byd. Dywedodd i ddisgrifiadau'r Parch. E. Rosalind Lee, M.A. o'i phrofiadau yn Prague yn ystod argyfwng y llynedd adael argraff ddofn ar y gwrandawyr. Pwysleisiwyd hefyd agwedd ddefosiynol cyfarfodydd y Cynghrair.

" Y Fenyw a Rhyfel " ydoedd testun araith ragorol gan y Parch. T. O. Williams, M.A. Cyfeiriodd at bwysigrwydd y gwragedd yn amser rhyfel ac at eu dylanwad mawr yn achos heddwch. Eu dylanwad hwy yn y pen draw a fyddai'n rhoi terfyn ar ryfel. Gorffennodd gyda'r geiriau—" Women were the last at the Cross, but the first at the Grave—at the Great Awakening when all shall whisper, ' Peace'."

Mynegwyd y diolch i'r siaradwyr, y swyddogion, ac ereill gan Mrs. Jenkins, Y Bryn, ac ategwyd hi gan Mrs. Jenkins, Blaenwaunganol.

Croeshawyd yr ymwelwyr i dê gan aelodau'r adran leol.—K.J.

Maes Llafur yr Ysgol Sul, 1939–40.

[*Am fis Ionor a Chwefror*].

Trefnwyd gan Mr. D. Emrys Rees, B.Sc., a Mr. T. Bryn Jones, B.Sc.

SAFON I (o dan 8 oed).

A.—Darllenwch yn ofalus ac yna atebwch y Cwestiynau yn (B).

Yr oedd gan Iesu ddau fath o ddisgyblion. Canlynai deuddeg ohonynt Ef o le i le. Gadawsant bopeth er mwyn Ei ddilyn. Rhoddasant heibio eu gwaith a'u teuluoedd gan roddi eu bywyd a'u hamser i gyd at wasanaeth y Deyrnas Fawr a sefydlai eu Hathro.

Yr oedd yna lu mawr arall yn dysgu Ei wersi Ef pan gaent gyfle. Dyma'r disgyblion cudd. Un enwog iawn ohonynt oedd Nicodemus a ddaeth i'w ddysgu ganddo gyda'r nos. Ni wyddys faint oedd gan yr Athro yn Ei Ysgol Nos. Dro arall cawn Ef yn dysgu'r Gwynfydau i dorf fawr, ac y mae plant drwy'r byd heddiw yn hoff o ddysgu'r Gwynfydau ar eu cof.

Yr oedd y bobl "fel defaid heb fugail" yn disgwyl am Athro ac Arweinydd am fod arnynt awydd dysgu. Dewisodd Iesu ddeuddeg o ddynion ieuainc i fod yn ddisgyblion arbennig iddo. Cafodd Simon Pedr ac Andreas ei frawd yn pysgota, ond yr oedd gan Iesu waith pwysicach o lawer ar eu cyfer. Gerllaw gwelodd ddau bysgotwr arall, Iago, ac Ioan, ac aethant hwythau eto i'w ganlyn Ef, gan adael hen wr eu tad i ofalu am y llong. Er syndod i bawb dewisodd bublican o'r enw Matthew i fod yn ddisgybl iddo. Nid oedd y publican a gasglai'r trethi yn ddyn parchus iawn.

Dyma restr o'r disgyblion a ddewisodd Iesu :—Simon Pedr ; Andreas ei frawd ; Iago ; Ioan ; Philip ; Bartholomeus ; Matthew ; Thomas ; Iago mab Alffeus ; Simon Selotes ; Iwdas brawd Iago ; Iwdas Iscariot.

Dyna nhw ! Dynion ieuainc cyffredin oeddynt. Ar ol cwrs o addysg am dair blynedd aethant ar hyd a lled y byd gan draethu'r Efengyl a glywsent gynt ar lan y môr.

B.—Cwestiynau :—

Pa sawl math o ddisgyblion oedd gan Iesu ? Beth yw disgybl ? Pa faint o ddisgyblion sydd yn eich dosbarth chwi ? Pa sawl disgybl oedd gan Iesu ? Pa beth a adawsant ? Paham ? Pwy a sefydlodd Deyrnas Dduw ? A ddysgodd Iesu rywrai heblaw'r deuddeg disgybl ? Pa beth y gelwch chwi'r rhai hyn ? Enwch

un ohonynt. Pa bryd y dysgai Iesu hwn ? Paham ? A wyddoch y Gwynfydau ar eich cof ? A oes rhai yn dysgu'r Gwynfydau ar eu cof ? Pwy ? A hoffech chwi wneud hynny ? Am ba beth y disgwyliai'r bobl ? Paham ? Enwch bedwar o bysgotwyr a ddewisodd Iesu yn ddisgyblion. Enwch y publican a ddewisodd Ef. Paham y synnai'r bobl am iddo ddewis y publican ? Pa beth oedd gwaith publican ? Enwch restr o'r disgyblion. Pa beth a ddigwyddodd i long Iago ac Ioan ? A oes disgyblion gan Iesu heddiw ? Pwy ?

C.—Dysgu ar gof : Y Gwynfydau.

SAFON II (8 I 12 OED).

A.—Gwers : Darllenwch Pennod VI o "*Hanes Iesu i Blant*," (T. O. Williams, M.A.), yn fanwl ac yna :—

B.—Atebwch y cwestiynau ar y bennod a ymddangosodd yn Rhifyn Rhagfyr 1938 o'r YMOFYNNYDD.

C.—Dysgu ar gof : (*a*) Emyn 469 o'r 'Perlau Moliant' i gyd.
(*b*) Luc iii. adnodau 4, 5, 6 a 7.

SAFON III (12 OED I FYNY).

A.—Gwers : Darllenwch Penodau ix. a x. o '*Hanes Iesu i Blant*,' (T. O. Williams, M.A.), yn fanwl ac yna atebwch y cwestiynau hyn :

B.—Cwestiynau :

Pennod ix. Pwy oedd y pregethwr newydd yr aeth sôn amdano drwy'r wlad ? Paham yr oedd cymaint o sôn amdano ? Enwch ddau beth a berthynai i'r hen grefydd Iddewig na chredai Iesu ynddynt. Rhoddwch ddwy engraifft o'r dull yr oedd Iesu yn wahanol i'r hyn a ddisgwyliai'r Iddewon. Pa beth oedd Duw iddo ef ? Pa beth oedd y gwahaniaeth rhwng dull Iesu a dull Ioan o ddiwygio pobl ? Ym mha fodd yr oedd yn wahanol i'r hen bregethwyr ? Enwch un o wyrthiau Iesu. Ym mha le'r oedd y wledd ? Pwy oedd un o'r rhai a oedd yn y wledd ? Pa beth a ddigwyddodd ar hanner y wledd ? Pa beth a wnaeth Iesu ? Nodwch un gwahaniaeth rhwng Efengyl Iesu a chredo'r Pharis-eaid. Pwy a ddywedai Iesu a gai fynd i'r Nefoedd ? Pa beth a ofynnodd y wraig iddo ger ffynnon Jacob ? Ym mha le y mynnai'r Iddew addoli ? A'r Samariaid ? Pa beth oedd ateb Iesu i

gwestiwn y wraig? Pa beth yw diben llawer o'r damhegion? Pwy oedd yr heuwr yn y ddameg gyntaf? Pa beth oedd yr had? Pa beth oedd y gwahanol fathau o dir? Pa sawl math o dir a geir yn y ddameg? Pa beth yw'r wers yn yr wyth dameg arall? Pa beth a ddigwydd i'r efrau adeg cynhaeaf? Pa beth a ddywedem ni yn lle "rhoi surdoes yn y blawd hyd oni surodd y cwbl"? Pa beth yw'r neges sydd gan Iesu yn nameg y swper mawr? Pwy oedd y gwahoddedigion, a pha beth oedd y wledd? I bwy y trefnwyd yr Efengyl?

Pennod x. Pa beth a ddysgai Iesu i ddynion? Pwy yw Duw? Pa fath un yw'r Duw a ddangosodd Iesu i ni? Pa beth a gredai llawer o'r Iddewon a ddigwyddai i ddynion drwg? Pa fath Dduw oedd eu Duw hwy? Pa fath Dduw a ddarluniau Iesu? Pa sawl dameg sydd gan Iesu yn dangos cariad Tad? Pa beth yw eu henwau? Pwy oedd yn grwgnach yn erbyn Iesu? Paham y grwgnachent? Pa ddamhegion a ddywedodd Iesu mewn ateb i'w grwgnach?

C.—Dysgu ar gof: (*a*) Y gweddill o Emyn 469 o'r 'Perlau Moliant.'
(*b*) Luc xv. 1—7.

Barn yr Hen Bobl.

CEISIO GOLEUNI O GANHWYLLAU'R GORFFENNOL.

(*Gan* Cledlyn).

Mewn amser fel hwn, pan yw'r byd i gyd mewn penbleth, nid ffol o beth fyddai troi am gyfarwyddyd, mi gredaf, at ddoethion yr oesoedd gynt. Er i lampau'r genhedlaeth hon ballu yn llwyr, ac er mai tywyll ar bob tu oddiamgylch inni ydyw'r 'black-out,' yn eisteddfodol a chenedlaethol, y mae canhwyllau ein gorffennol fel gwlad yn para ynghynn, ac fe all llewyrch y rheiny gyfeirio ein camre eto ymlaen. Gadewch i ni chwilio allan, gan hynny, pa beth ydoedd barn pobl orau Cymru Fu ar bynciau mawr Bywyd ac Angau, ac ar faterion pwysig y deuir i gysylltiad â hwynt yn feunyddiol, mewn gwlad a thref.

Barn Brenhines.

Dechreuwn, yn gymdeithasol, ar y top, sef gyda'r *Frenhines Elisabeth.* "Eithr," medd rhywun, "nid Cymraes oedd honno." Nage, nid yn hollol, y mae'n wir, ond yr oedd gwaed Cymreig yn rhedeg trwy ei gwythiennau. A hithau yn or-ŵyres i'r hen Owain

Tudur o Benmynydd Môn, nid oedd mor amddifad o'r iaith Gymraeg ychwaith ag y tybir yn gyffredin, oherwydd fel hyn y dywad un o wŷr ei llys, sef Syr Roger Williams o Benrhos, amdani, mewn perthynas a'r iaith a siaredid gan ei theidiau gynt, ym Môn ;—
" Pareblwch ein heniaith yn ei chlyw, ac, myn sawdl y ddraig ! hi a'ch dealla chwi bob gair." Yn hydref ei hoes, yn addfedrwydd ei hoedran, wele farn brofiadol Elisabeth ar y bywyd dynol ;—

" Mi brofais o felyster ac o chwerwder y byd hwn, ac ni welaf fawr o reswm dros falchïo am fod yn fyw, na thros ofni, ychwaith, rhag marw. Bûm yn ddeiliad o dan ereill ac mi wn bellach pa beth ydyw bod yn ben ar bobloedd lawer. Bu imi gymydogion da, a chyfarfûm â rhai drwg, hefyd. A heddiw, pan alwaf i'm cof y pethau a fu, pan welaf o'm hamgylch y pethau y sydd, a phan edrychaf ymlaen at y pethau sydd i ddyfod, fy marn ydyw hyn,—mai i'r sawl a gaiff fynd oddiyma yn rhwydd ac yn ebrwydd y perthyn y dedwyddwch pennaf."

Barn Gwladweinydd.

Un o brif arwyr Rhyddid yng nghyfnod y Weriniaeth ydoedd *Syr Harri Vane* (neu Fychan). O waed Cymreig y Fychaniaid, fe safodd hwn fel y dur yn erbyn gormes Siarl I. Cymerodd ran flaenllaw yn llywodraeth y wlad yn amser Cromwel, a phan ddymchwelwyd y Weriniaeth, fe'i dienyddiwyd ef ar Fryn y Tŵr, yn 1662. Bu ei farw, meddir, yn deilwng o'i fyw, a bu'r naill a'r llall yn llwyr unol a'r farn a goleddodd trwy ei oes. Fel hyn y dywedodd unwaith ;—

" Bydd gan bob dyn, a fo'n ddewr a haelfrydig ei ysbryd, rai pethau sy'n anwylach ganddo na hyd yn oed ei fywyd ei hun, sef y pethau nad ydyw yn amau dim yn eu cylch, nac yn ofni marw er eu mwyn. Nid yw'r sawl sy'n adnabod gwir Ryddid yn ofni dim. Amser cyfaddas, yn wir, i ddyn farw ynddo ydyw hwnnw, pan êl bywyd yn fwy o faich nag o fendith, a phan fo mwy o ddrwg mewn bywyd, nag y sydd o ddaioni."

Barn Piwritan.

Pregethwr o Biwritan, a sefydlodd lawer o eglwysi Ymneilltuol yng Nghymru yn amser Cromwel, ydoedd *Morgan Llwyd.* Yn llenor gwych, ei waith pwysicaf ydyw " Llyfr y Tri Aderyn," ac o hwnnw y dyfynnir y brawddegau a ganlyn ;—

" Y mae ysbryd rheolaeth fyth yn parhau, a'r sawl na phlygo iddo, a ddryllir."

" Yr wy'n tybied y ceir eto fyd gwell nag a gaed erioed, canys yn y nef a'r ddaear newydd, fe erys cyfiawnder."

" Y sawl sydd a dau wyneb ganddo, y mae un o'r ddau yn gythreulig ; y neb a wenhieithio ddynion, sydd bwdr yn ei galon."

" Amser dyn yw ei gynhysgaeth, a gwae a'i gwario yn ofer ! "

BARN MEDDYG.

Gŵr â llawer o ramant yn ei hanes ydoedd *Sion Dafydd Rhys* (1534—1609), a gyhoeddodd Ramadeg Cymraeg, y rhan fwyaf ohono yn Lladin, yn 1592. Mab oedd Sion i arddwr Syr Edward Stradling o Gastell Sant Donad, a chafodd ei gyd-addysgu â mab yr uchelwr hwnnw. Er iddo raddio yn Ddoctor Meddyginiaeth ym Mhrifathrofa Sienna yn yr Eidal, fe droes Sion yn fynach, ac yn unigedd Cwm Llwch ym Mrycheiniog y treuliodd nawnddydd ei oes. Wele ei farn ar egwyddor pob tyfiant ;—

" Megis na allwyd erioed fwyta pryd o fwyd, mewn un tamaid, nac aredig erioed erw o dir, mewn un gŵys ; felly hefyd, o ran cyffelybrwydd, ni allwyd erioed berffeithio, ar unwaith, un gelfyddyd yn y byd ; eithr yn gyntaf, ei dychymygu ; yna, o bryd i bryd, ychwanegu ati ; ac o'r diwedd, ei pherffeithio."

Eto, fel hyn y rhy ei farn am y beirniaid llenyddol (y *critics*) ;—

" Dynionach anneallus ydynt, y rhai ni cheisiant well swydd nag ymroi i chwilio am y bai yma, a'r bai acw, ar lyfr ; megis dynion a faent yn chwilcenna am lau ar ddillad marchog urddol ; a hyn oll a wnaent, nid o chwant dysgu, na chwaith gael lles allan o'r llyfr, nag iddynt hwy, nag i ereill ; ond yn unig er mwyn cael eu barnu yn ddysgedig yng ngolwg y byd, a'u bod hwy yn wŷr cymaint eu dysg a'u cyfrwyddyd, a medru canfod beiau mewn llyfrau gwŷr ereill, er nas medrant wellhâu yr un o'r beiau lleiaf. Och ohonynt ! penhyrddod ydynt, canys nid oes unpeth o'r byd, a ddêl oddiwrth ddyn, na bo beius ac amherffaith, er däed y gwneler."

(*I'w barhau.*)

Duw a Rhyfel.

DYNA ydoedd pwnc ysgrif rymus a threiddgar gan Dewi Hiraddug (y Parch. D. Delta Evans) yn y *Faner* ychydig wythnosau'n ôl. " Ymddengys i mi," meddai, " nad neb ond paganiaid anwaraidd a faidd weddïo am fendith Duw byw y cyfanfyd ar y naill fyddin na'r llall mewn rhyfel rhwng cenhedloedd . . . Ni bydd gobaith am roi terfyn ar *man's inhumanity to man* hyd oni wawrio sylweddoliad byw a chyffredinol yng nghalon y ddynoliaeth o'r gwirionedd nad oes a wnelo Duw ddim â chwerylon a brwydrau plant dynion heblaw eu casau a gofidio o'u herwydd." Bu'r ysgrif hon yn destun gohebiaeth fywiog yn y *Faner* wedyn.

Parhâ Dewi Hiraddug i gyfroddi'n helaeth a chyson i'r *Gwyliedydd Newydd* (papur wythnosol yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru). Pwnc cyfres ddiweddar o erthyglau ganddo oedd " Teyrnas yr Anweledig " ; ac yn awr y mae wedi dechrau cyfres arall ar " Perthynas Dyn â Duw."

Yn ystod y mis diwethaf derbyniodd Dewi wahoddiad caredig i wasanaethu ar brynhawn Sul yn un o gapelau Cymraeg y Brifddinas. Cafodd groeso cynnes, a gwerthfawrogwyd ei wasanaeth.

Barn Einstein.

YN uchel iawn ar restr prif wyddonwyr y byd heddiw fe saif enw Einstein. Y mae ei ddarganfyddiadau am blygiadau pelydrau goleuni a deddf disgyrchiad (*gravity*) yn ddylanwad chwildroadol ym myd dysg. Am ei gyfraniadau gwerthfawr i wybodaeth dyfarnwyd iddo'r *Nobel Prize* yn 1921. Gorfu iddo ymddeol o un o brif swyddi addysg wyddonol yn yr Almaen yn 1933 oherwydd ei gysylltiadau Iddewig, ac estynnwyd iddo wahoddiad cynnes yr Unol Daleithiau i barhau ei waith yno.

Mewn cofnodolyn Ffrengig, *Evangile et Liberte*, yn ddiweddar edrydd y meddyliwr mawr hwn air o glod i dystiolaeth yr Eglwys Gristnogol dros ryddid, ac ychwanegir at bwys ei eiriau pan gofiwn mai Iddew na sydd yn proffesu unrhyw gredo grefyddol arbennig sy'n ysgrifennu. Dywaid—

"Fel pleidiwr eiddgar erioed dros ryddid, cyn gynted ag y digwyddodd y refoliwsion yn yr Almaen, trois at y Prifysgolion er mwyn dod o hyd yno i amddiffynwyr rhyddid. Ni chefais hwy. Yn union deg ymddiogelodd y Prifysgolion eu hunain mewn distawrwydd. Wedyn trois at olygyddion y newyddiaduron dylanwadol a hawliai hyd yn ddiweddar mewn ysgrifau ymadroddus eu bod yn bleidwyr rhyddid. Distawyd y dynion hyn, fel y Prifysgolion, mewn ychydig wythnosau. Yna trois at yr awduron, un ac un, at y rhai a'u hystyriai eu hunain yn arweinwyr meddyliol yr Almaen, a bu llawer ohonynt yn trin cwestiwn rhyddid a'i le'n y bywyd *modern*. Yr oeddynt hwythau'n eu tro'n fud.

"Yr Eglwys yn unig a wrthwynebodd frwydr Hitler yn erbyn rhyddid. Hyd hynny nid oedd gennyf ddiddordeb yn yr Eglwys, ond yn awr y mae gennyf edmygedd mawr ohoni, ac fe'm tynnir yn wirioneddol at yr Eglwys sy'n meddu ar wroldeb mor gyndyn i ymladd dros wirionedd ysbrydol a rhyddid moesol. Rhaid i mi gydnabod fy mod yn awr yn edmygu'r hyn yr arferwn ystyried o werth bach iawn."

Priodas.

AR RAGFYR 27, yng Nghapel y Groes, TOM JONES, Cwmnant, Cwrtnewydd, a MARY RICHARDS, Llanfair Hill, y Parchn. E. Griffith Jones a S. E. Bowen yn gweinyddu. Pob llwyddiant a'u dilyno.

Marwgofion.

Tachwedd 11, yn 46 mlwydd oed, bu farw Mrs. GWENLLIAN BOWEN, annwyl briod Mr. David W. Bowen, Swansea Road, Trebanos. Flwyddyn yn ôl bu Mrs. Bowen dan driniaeth feddygol yn Ysbyty Abertawe, a gorfu iddi fynd eilwaith i'r Ysbyty, lle y bu farw yn annisgwyl. Dynes siriol ydoedd, a chanddi ateb parod i bawb. Hynny a'i gwnai yn gwmni mor ddiddan a chylch ei chyfeillion yn un mor helaeth. Ar yr aelwyd gartref yr oedd adnabod Mrs. Bowen, ac ymfalchïai hi yn ei haelwyd, lle y bu'n fam dda, yng ngwir ystyr y gair, i deulu mawr. Estynnir i'r priod, a'r plant, a chysylltiadau lluosog y teulu ein cydymdeimlad dyfnaf. Claddwyd wrth Gapel Gellionnen y dydd Mercher dilynol, a gwasanaethwyd gan y Parchn. J. D. Jones, Idwal Jones, Daniel John, W. J. Rees, a Lewis Morgan.

Dydd Llun, Tachwedd 13, bu farw y cyfaill hawddgar, JOHN STANLEY EVANS, 3, Broniestyn Terrace, Aberdâr yn 63 mlwydd oed. Byr fu ei afiechyd, ac nid oedd neb wedi breuddwydio fod y diwedd mor agos. Cafodd iechyd da ar hyd y blynyddoedd, ac anaml iawn y byddai'n achwyn, a mwyaf i gyd felly oedd ein siom i'r terfyn ddyfod o fewn wythnos. Dyma golled fawr eto i'r Hen Dŷ Cwrdd. Bu'n un o'r ffyddloniaid ar hyd y blynyddoedd, a chymrodd ran flaenllaw ymhob adran o waith yr eglwys. Gwelir ei eisiau ymhob cylch. Oni byddai'n y gwasanaeth ar y Sul gallesid bod yn sicr ei fod yn gweithio neu oddicartref, ac nid oedd neb yn teimlo mwy o ddiddordeb yn llwyddiant yr achos. Yr oedd yn un o sylfaenwyr y Gymdeithas Ymdrechol a'r Band of Hope, yn Ysgrifennydd y Gymanfa Ganu (Cylch Morgannwg) am flynyddoedd, yn athro'n yr Ysgol Sul, ac yn un o'r arweinwyr gyda phob mudiad da. Gwelir ei eisiau ymhob cyfeiriad, ac yn enwedig yn y dyddiau hyn, oherwydd nid oes neb yn dod i lanw y lleoedd gweigion, ac o golli ffyddloniaid fel hyn y mae'r hen achos yn dioddef yn enbyd. Gweithiwr gonest a didwyll ydoedd, yn feddiannol ar synnwyr cyffredin o radd uchel, yn gyfaill diffuant, ac ni fu neb yn fwy o gyfaill i weinidog nag ef. Gedy ar ei ôl weddw a dwy o ferched, a chyflwynwn iddynt hwy ac hefyd i'w frawd a'i chwiorydd ein cydymdeimlad llwyraf yn eu hiraeth a'u gofid. Bu'r angladd dydd Iau, Tachwedd 16, i'r Crematorium, Pontypridd, a gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Richards, ac E. R. Dennis.

Blin yw cofnodi marwolaeth sydyn y baban pedwar mis oed, DAVID TOM ARWEL HUGHES, mab Mr. a Mrs. Alcwyn Hughes, Cwmcaredig, Llanllwni ar Dachwedd 14. Claddwyd y dydd Gwener dilynol ym mynwent Capel Nonni, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Morris Jones a S. E. Bowen. Y mae dau fachgen a thair merch fach ynghyd a'r tad a'r fam yn y cartref mewn hiraeth ar ei ôl.

Tachwedd 15 yn Llwynhelyg, plwyf Llanwenog, bu farw SARAH JENKINS, annwyl briod y diweddar David Jenkins, o Lanafon, ger Cribyn, yn 87 mlwydd oed. Merch ydoedd i'r diweddar Evan a Mary Morgans, o'r Moelfre, plwyf Llanbedr, teulu a fu'n flaenllaw yng Nghapel-y-Groes ymron er ei ddechreu. Ar farw ei thad, ymbriododd â David Jenkins, ac aethant ill dau i fyw i Faesnewydd, ger llaw Cribyn ; yno y buont yn cydfyw yn gysurus hyd y bu rhaid iddynt, oblegid methiant henaint, ymneilltuo i fywyd anghyhoedd, ac aethant i fyw i Lanafon. Yno y buont hyd farw Mr. Jenkins yn agos i dair blynedd yn ôl, pryd yr aeth hi at ei nith i Lwynhelyg ; a derbyniodd bob gofal a thynerwch oddiar ei llaw hi a'i phriod hyd y diwedd. Ymaelododd yng Nghapel-y-Groes pan oedd gymharol ieuanc ; a thra fu yn y gymdogaeth, bu yn rhyfeddol o ffyddlon a pharod i wneuthur a fedrai dros yr achos. Wedi iddi symud i Faesnewydd, cymerodd ei lle yng Nghapel Cribyn ; a bu yr un mor ffyddlon a gwasanaethgar yno. Mynychai'r gwasanaethau yn rhyfeddol o ffyddlon ; a phob amser yr oedd yn barod i roddi ei

gwasanaeth pa bryd bynnag y byddai galw am dano. Ymhellach, harddodd ei phroffes â'i rhodiad glân, cywir, a didwyll. Yr oedd caredigrwydd a chymwynasgarwch yn nodweddau amlwg o'i chymeriad ; a phryd bynnag a lle bynnag y gwelai angen, gwnai ei rhan i gynorthwyo. Am y rhesymau hyn ac eraill a ellid eu henwi, enillodd iddi ei hun air da pawb o'i chymdogion, a gwelir ei lle yn wag iawn yn ardal y Cribyn. Gyda'i marw hi a'i phriod, y mae un genhedlaeth o'r ddau deulu—y Moelfre a Llechwedd-deri—wedi diflannu. " Un genhedlaeth a â ymaith, a chenhedlaeth arall a ddaw." Bu ei chladdedigaeth y dydd Sadwrn dilynol, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r perthynasau ac ychydig o'i hen gymdogion. Claddwyd ym mynwent Capel-y-Groes, gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y Capel gan y gweinidog, y Parch. E. Griffith Jones. Gweddïwyd ar lan y bedd gan y Parch. D. Evans, Cwmiago.

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 3, yn Ysbyty Aberystwyth, bu farw THOMAS THOMAS, Rock, Tregroes, Llandysul, yn 61 mlwydd oed. Dyn o dymer dawel, ag o gymeriad glân, gweithiwr gonest a chyfaill trwyadl, mae ei farwolaeth wedi creu gwagle mawr ym mywyd yr ardal, yn ei gapel, ac yn enwedig yn yr Ysgol Sul lle y bu yn ffyddlon iawn drwy y blynyddoedd fel Athro diwylliedig, ag fel cyfaill cywir i'r plant. Claddwyd ef ym mynwent Pantydefaid yr Iau canlynol ym mhresenoldeb cynulleidfa fawr. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. Davies (A), ac ar lan y bedd gan Ficer y Plwyf, a'r Parch. D. A. Williams (A). Pregethwyd ei bregeth angladdol gan ei weinidog. Cydymdeimlwn yn farw â'r weddw a'r perthynasau.

Ar Ragfyr 12 bu farw Mrs. MARY JANE HOPKIN, 203, Swansea Road, Trebanos, yn 77 mlwydd oed. Ers blynyddoedd cyfyngwyd hi i'r aelwyd gan ffaeledd y corff, ond nid ataliodd hynny ei diddordeb yng ngweithgarwch y capel. Daliai i gyfrannu'n gyson at yr achos. Er ei chaethiwo i'r tŷ ni chlywyd hi'n cwyno,—yn wir, yr oedd llonder ei hyspryd a'i serchogrwydd arferol yn gwneud ei chwmni'n felys. Perthynai i'w phersonoliaeth ryw swyn rhyfeddol, ac yr oedd ei buchedd yn esiampl o un yn heneiddio'n rasusol. " Y rhai a blannwyd yn nhŷ yr Arglwydd a flodeuant yng nghynteddau ein Duw. Ffrwythant eto yn eu henaint ; tirfion ac iraidd fyddant." Gwelodd Mrs. Hopkin lawer o ddyddiau, rhai ohonynt yn ddyddiau digon tywyll fel yr amser pan gollodd ei phriod mewn amgylchiadau trist iawn flynyddoedd yn ôl. Gwelodd hefyd lawer o heulwen, a bu gofal tyner ac anwyldeb ei phlant tuag ati'n help i estyn llawer iawn ar ei dyddiau. Cydymdeimlir yn ddwfn a'i merch, ei mab â'i merch-yng-nghyfraith, a Mair, a chysylltiadau lluosog y teulu. Claddwyd ym mynwent Gellionnen ar Ragfyr 16, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. J. D. Jones a D. John.

Nodion yr Eglwysi.

TRYSORFA'R MYFYRWYR.—Dymunir hysbysu mai'r Trysorydd yn awr yw'r Parch. Simon Jones, B.A., Celfan, Southgate, Park Mill, Abertawe. Iddo ef y mae'r cynulleidfaoedd i ddanfon eu casglaidau.—E. O. Jenkins.

Y GWEINIDOGION.—Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Gweinidogion ar Dachwedd 6 yn 8, Caergog Terrace, Aberystwyth, pryd yr oedd yn brseennol y Parchn. J. Islan Jones, M.A. ; Lewis Williams ; T. O. Williams, M.A. ; S. E. Bowen, ac E. Griffith Jones. Llywyddwyd gan y Parch. John Evans, B.A.

CWRDD SEFYDLU.—Ar Ragfyr 7 sefydlwyd y Parch. Noel James, B.A. yn weinidog ar Eglwys Undodaidd Boston, swydd Lincoln. Un o aelodau Gellionnen a'r Graig yw Mr. James, yn bregethwr derbyniol iawn, a rhywbeth yn nhôn ei lais yn ein atgofio am yr annwyl John Davies, Tancoed. Pregethwyd yn y cyfarfod gan y Parchn. Dr. Alfred Hall a G. S. Spinks. Estynnir i Mr. James ein dymuniadau am ei lwyddiant yn ei faes newydd.

NOTTAIS.—I bob un a fu unrhyw amser yn dal cysylltiad a'r capel neu'r ysgol Sul ac i bob un o'r pentref sydd yn y fyddin danfonwyd parsel o nwyddau wedi eu gwau gan y chwiorydd.

LLUNDAIN.—Cynhelir y GWASANAETH CYMRAEG yn Eglwys Unity, Islington, N.1. ar y dydd Sul cyntaf o'r mis am 5 o'r gloch. Pregethir ar Ionor 7 gan Mr. D. Jacob Davies, Coleg Caerfyrddin ; ar Chwefror 4 gan y Parch. Noel James, B.A., Boston, ac ar Fawrth 3 gan y Parch. E. A. Davies, Loughborough.

PONTYPRIDD.—Ar Dachwedd 23 treuliwyd dydd hapus yn *Sale of Work* flynyddol, a bu'r hen a'r ieuainc yn ddiwyd. Ni bu'r glaw mawr yn rhwystr i'n cynorthwywyr brwdfrydig, a chasglwyd £40. Y mae gan yr eglwys yn awr *radiogram*, rhodd y diweddar Mr. S. T. Lewis.

ABERYSTWYTH.—Bu aelodau'r gynulleidfa hon mor garedig ag anrhegu MEGAN EVANS ar achlysur ei phriodas a nodwyd yn rhifyn Mai o'r YMOFYNNYDD â *E. P. N. S. Cake Basket* hardd ynghŷd â *Dessert Knives* destlus fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i chynhorthwy gyda'r canu, a'n dymuniadau da am y dyfodol, a theimla hithau yn ddiolchgar iawn am y caredigrwydd a ddangoswyd.

CAPEL Y FADFA.—O dan nawdd Cynghrair y Gwragedd cafwyd Sosial yma ar Dachwedd 22 a'r danteithion i gyd o waith cartref. Yn anffodus yr oedd yn noson boenus o arw, a thrwy hynny yr oedd y cwmni dipyn yn llai nag arfer. Er hynny cafwyd noson lawen, a'r chwiorydd yn benderfynol o gario 'mlaen fel arfer drwy'r gaeaf. Llywyddir am y flwyddyn gan Mrs. T. G. Thomas, y Ffatri ; Miss Frances Evans, Glantre, yn drysorydd, a Miss Rachel Ellen Thomas, Esger, yn ysgrifennydd.

GELLIONNEN A'R GRAIG.—Cafwyd amser pleserus yn y Sosial a drefnwyd gan y bechgyn a'r merched ieuainc ar Ragfyr 21. Prynhawn dydd Nadolig derbyniodd deiliaid yr ysgol Sul, hen ac ifanc, bobo anrheg oddiar ganghennau'r pren Nadolig. Gofalwyd am addurno'r goeden gan Miss A. Morgan a Mrs. B. Hartnell. Canwyd carolau, ac i ddiddanu'r cwmni ac ychwanegu'r pleser adroddodd Mr. John Hopkin restr o storiau difyr. Yr oedd y Parch. Noel James, B.A. hefyd yn bresennol. Dydd Calan rhoddwyd tê i ddeiliaid yr ysgol Sul gan Miss M. A. Morgan, Y Darren, a gwledd ragorol ydoedd, y byrddau wedi eu hulio â danteithion. Mynegodd y plant eu diolch i Miss Morgan mewn cân a dawns, a gwerthfawrogir ei haelioni'n fawr iawn. Y mae Miss Morgan yn un o'r ffyddloniaid, yn athrawes yn yr ysgol Sul, a gobeithiwn i'r weithred garedig hon roddi iddi gymaint o lawenydd ag a roes i ninnau o fwynhad. Yn ddiweddarach yn y dydd cynhaliodd aelodau Cynghrair y Gwragedd eu Sosial hwythau. Felly cawsom ddechrau'r flwyddyn newydd gyda thê a swper yn y capel.

YR HEN BRYDYDD.

Cenit i wreng a bonedd
  Pan gaffet hoe a hwyl,
I'r cwrw bach a'r neithior,
  Nos lawen, ffair, a gŵyl ;
I gampwaith yr hen grefftwyr gwlad—
Seiri a gofaint fferm a stad.

Cyrchit y ffeiriau pellaf
  I werthu dy gerddi maith,
Dyhidlit win dy awen
  I lestri'r dafarn laith ;
Ond ni fedr cloch y ffeiriau mwy
Dy alw yn ôl i'w harllwys hwy.

Ofer y chwiliaf heddiw
  Am un o'th ddawn a'th dras,
O'th golli, tlawd yw'r werin,
  A gwacter sy'n y Plas :
Nid wyt ond eco o'r dyddiau gynt
Ar gof a gwefus y pedwar gwynt.

Prengwyn. IFAN JONES.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.